OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1992

Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

RHAN 12

Amrywiol

Pŵer i wahardd symud anifeiliaid

39.—(1) Caiff arolygydd, drwy gyflwyno hysbysiad i geidwad, wahardd symud defaid i'r daliad a bennir yn yr hysbysiad neu ohono, os bodlonir yr arolygydd fod y gwaharddiad yn angenrheidiol er mwyn gorfodi'r Gorchymyn hwn yn briodol mewn perthynas â'r ddiadell honno.

(2) Caiff arolygydd, drwy gyflwyno hysbysiad i geidwad, wahardd symud geifr i'r daliad a bennir yn yr hysbysiad neu ohono, os bodlonir yr arolygydd fod y gwaharddiad yn angenrheidiol er mwyn gorfodi'r Gorchymyn hwn yn briodol mewn perthynas â'r eifre honno.

(3) Caniateir diwygio neu ddirymu hysbysiad a gyflwynir o dan yr erthygl hon ar unrhyw adeg drwy hysbysiad bellach.